



Datblygu Sefydliadau Diogel i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru a Lloegr

Sgriniad Cychwynnol Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Perthnasedd i Ddyletswyddau Cydraddoldeb

1. Enw'r ddeddfwriaeth, y polisi, y strategaeth, y prosiect neu'r gwasanaeth newydd neu ddiwygiedig arfaethedig sy'n cael ei asesu

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (YJB) a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi cyhoeddi *Datblygu Sefydliadau Diogel i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru a Lloegr – Cynlluniau tan 2015*.

Mae'r ddogfen yn adlewyrchu cynigion yr YJB ar gyfer sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant presennol tan 2014/15. Mae'r cynlluniau datblygu hyn yn amlinellu egwyddorion a blaenoriaethau sefydliadau diogel yn ystod y cyfnod hwn, a byddant yn galluogi'r YJB i gyflawni eu hamcanion a phennu fframwaith clir ar gyfer datblygu sefydliadau diogel i rai dan 18 oed. Mae cyhoeddi'r ddogfen yn dilyn ymarfer ymgynghori'r haf diwethaf.

2. Dyletswyddau cydraddoldeb

Mae'r asesiad hwn yn adeiladu ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) blaenorol, a ddatblygwyd i ategu'r ddogfen ymgynghori gan gyfeirio'n benodol at wybodaeth ychwanegol a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad.

Mae Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ddyletswydd gyfreithiol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder 'ystyried yn briodol' y ffaith bod angen:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- sicrhau cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol (rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a rhai nad ydynt), a
- meithrin perthynas dda rhwng grwpiau gwahanol.

Y nodweddion gwarchoddedig perthnasol at y dibenion hyn yw: hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.

Yn gyson â'r dyletswyddau hyn, a gan ystyried amcanion statudol adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hwn yn ystyried sut y mae'r cynigion polisi hyn yn debygol o effeithio ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.

Mae Pennod 2 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amlinellu sawl ffurf o **ymddygiad a waherddir**, sef:

- gwahaniaethu uniongyrchol (a.13)
- gwahaniaethu o ganlyniad i anabledd (a.15)
- gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth (a.17 ac a.18)

- aflonyddu (a.26)
- erlid (a.27)
- torri cymal gwrthwahananiaethu (a.61)
- gwahaniaethu anuniongyrchol (a.19)
- methu â chydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol (a.20 ac a.21).

Rhoddir ystyriaeth bellach i'r mathau hyn o ymddygiad a waherddir, pan fo'n berthnasol, isod.

Hefyd, yn unol ag a.149(3) a (5), mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi ymrwymo i'r canlynol:

“(3) Mae rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i sicrhau cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu yn golygu rhoi ystyriaeth briodol, yn benodol, i'r ffaith bod angen

- a) dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno;
- b) cymryd camau i ddiwallu anghenion unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno;
- c) annog unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae nifer anghymesur o isel o unigolion o'r fath yn cymryd rhan.”

“(5) Mae rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i feithrin perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu yn golygu rhoi ystyriaeth briodol, yn benodol, i'r ffaith bod angen

- a) herio rhagfarn
- b) hybu dealltwriaeth.”

Rydym wedi ystyried goblygiadau'r cynigion hyn i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i'r ffaith bod angen meithrin perthynas dda gan gofio'r canllawiau yn isadrannau 149(3) a (5).

3. Uned a swyddog unigol sy'n gyfrifol am gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Karl Mittelstadt, Rheolwr Prosiect, Strategaeth Sefydliadau Diogel
Cyfarwyddiaeth Llety Diogel
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr

4. Beth yw prif nod neu ddiben y ddeddfwriaeth, y polisi, y strategaeth, y prosiect neu'r gwasanaeth newydd neu ddiwygiedig arfaethedig a beth yw'r canlyniadau bwriadedig?

Nod y cynigion a amlinellir yn y cynlluniau datblygu yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael gwasanaethau sy'n eu galluogi i fyw bywydau llwyddiannus a chyflawn, heb droseddu, wrth ddychwelyd i'w cymunedau. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw mewn sefydliad diogel arbenigol a neilltuol, lle mae gwasanaethau wedi'u cynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion unigol pob plentyn a pherson ifanc, mewn amgylchedd sy'n eu cadw'n ddiogel ac yn gwneud y mwyaf o'u potensial.

Mae dwy brif effaith fwriadedig i'r cynigion polisi:

- sicrhau y gall y sefydliadau weithredu'n effeithlon drwy leihau capasiti gormodol, a
- gwella gwaith adsefydlu a lleihau aildroeddu mewn perthynas â'r bobl ifanc hynny sy'n dod i gysylltiad â sefydliadau diogel.

Mae'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu sefydliadau diogel wedi ystyried y blaenoriaethau a amlinellir ym Mhapur Gwyrdd y llywodraeth *Torri'r Cylch* a'r egwyddorion sy'n llywio diwygio ar draws y llywodraeth, yn enwedig: mwy o atebolrwydd, gwell gwerth am arian, a thalu yn ôl canlyniadau.

5. Pa ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes y byddwch yn eu defnyddio i'ch helpu i ganfod materion cydraddoldeb tebygol mewn gwahanol grwpiau o bobl?

Defnyddiwyd data o amrywiaeth o ffynonellau wrth werthuso effaith yr ymrwymadau yn y cynlluniau datblygu ar gydraddoldeb, gan gynnwys:

- ffynonellau data mewnol megis System Glirio Sefydliadau Diogel (SACHS) a System Gwybodaeth Rheoli Cyfiawnder Ieuencid (YJMIS)
- Ystadegau Cyfiawnder Ieuencid 2010/11¹
- adroddiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac Ofsted gan gynnwys adroddiad chwe-misol yr Arolygiaeth ar farn pobl ifanc²
- ymchwil wedi'i gomisiynu, megis y gwerthusiad o Uned Keppel yn Wetherby a gyhoeddwyd yn ddiweddar³
- gwybodaeth rheoli a gasglwyd gan fonitorau yr YJB.

Hefyd, cynhaliodd yr YJB ymarfer ymgynghori cyhoeddus rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2011. Gwahoddwyd dros 850 o randdeiliaid unigol i ymateb i'r ymgynghoriad a chafwyd cyfanswm o 80 ymateb.

Tabl 1. Nifer a chanran yr ymatebion yn ôl math o atebydd

Sector	Nifer yr ymatebion	Canran
Timau Troseddau Ieuencid/gwasanaethau plant	21	27%
Llywodraeth a chyrrff swyddogol	13	16%
Y trydydd sector	13	16%
Darparwyr sefydliadau diogel	10	12.5%
Iechyd	7	9%
Eraill	7	9%
Cymru	6	7.5%
Y cyhoedd	3	3%
Cyfanswm	80	100%

¹ http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20110204170815/http://www.justice.gov.uk/inspectors/hmi-prisons/docs/Children_report_2010_rps.pdf.

² <http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/inspectorate-reports/hmipris/children-young%20people-2010-11.pdf>.

³ <http://www.justice.gov.uk/downloads/guidance/youth-justice/specialist-resources/keppel-unit/keppel-unit-process-evaluation.pdf>.

Ymgynghorwyd â phobl ifanc mewn sefydliadau diogel ar wahân. Comisiynodd yr YJB eu darparwyr eiriolaeth presennol, Voice a Barnardo's, i wneud y gwaith hwn. Cyhoeddir crynodeb o ymatebion ochr yn ochr â'r cynlluniau datblygu a'r asesiadau o effaith terfynol.⁴

Ystyriwyd pob ymateb yn ofalus, ac mae pob un ohonynt wedi helpu i siapio'r cynlluniau datblygu terfynol. Yn ystod y broses, cynhaliodd yr YJB nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled y wlad, gan gynnwys nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu pwrpasol i randdeiliaid y trydydd sector a swyddogion y llywodraeth yn Llundain.

Cododd pedwar ar ddeg o randdeiliaid faterion penodol yn ymwneud â chydraddoldeb yn eu hatebion. Roedd y rhain yn cynnwys cyfeiriadau at gynrychiolaeth rhy uchel o bobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig, darpariaeth gwasanaethau i fenywod ifanc ac ymateb i anableddau pobl ifanc. Roedd y dadansoddiad o atebion i'r arolwg gan blant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel hefyd yn tynnu sylw at anghymesuredd, er enghraifft roedd grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn sôn yn fwy negyddol am eu profiadau yn y ddalfa o gymharu â'u cymheiriaid Gwyn.

6. Meysydd unigol y cynlluniau datblygu

Mae'r cynigion a wneir yn y cynlluniau datblygu'n adlewyrchu'r egwyddorion a amlinellwyd ac maent yn cynnwys ymrwymiad i:

- **Ad-drefnu sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc** drwy:
 - i. Ymateb i'r gostyngiad mewn galw
 - Datgomisiynu capasiti gormodol
 - ii. Dosbarthiad Daearyddol
 - Datblygu mwy o gapasiti mewn ardaloedd daearyddol â llawer o alw
 - iii. Adolygu gwasanaethau a gomisiynir i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn well
 - Adeiladu ar arfer da sy'n dod i'r amlwg i ddatblygu unedau cymorth dwys llai
- **Comisiynu gwasanaethau'n effeithiol i wella adsefydlu** drwy:
 - i. Comisiynu gwasanaethau'n fwy effeithiol
 - mewn partneriaeth â phartneriaid cydgomisiynu, cynnal dadansoddiad newydd o anghenion
 - cael gwell dealltwriaeth o'r rhesymau am anghymesuredd yn y system cyfiawnder ieuenctid
 - ii. Comisiynu'n seiliedig ar dystiolaeth
 - iii. Sefydliadau neilltuol i blant a phobl ifanc
- **Lleihau aildroseddu gan blant a phobl ifanc sy'n gadael y ddalfa** drwy:
 - i. Cydweithio'n effeithiol ag arolygiaethau
 - ii. Cydweithio'n effeithiol â darparwyr diogel

⁴ <http://www.justice.gov.uk/consultations/closed-with-response.htm>.

Bydd cyflawni'r uchod yn galluogi'r YJB i gyflawni ymrwymadau ei adolygiad o wariant, gyda sefydliadau diogel yn gweithredu'n fwy effeithlon, a bydd yn sicrhau bod sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc yn effeithiol, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc sy'n cael eu lleoli mewn sefydliadau carcharu ac yn eu gadael. Mae Asesiad o'r Effaith Economaidd ar wahân wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r asesiad hwn.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau wedi'i wneud mewn hinsawdd gyllidol lle mae angen bod yn arbennig o ddarbodus wrth wario arian cyhoeddus. Mae hyn yn effeithio ar sut y byddwn yn cyflawni ein swyddogaethau ac ar sut y byddwn yn ymateb i heriau gweithredol.

Nid yw'r YJB yn cyflenwi gwasanaethau'n uniongyrchol i bobl ifanc mewn sefydliadau diogel. Mewn llawer o achosion, caiff gwasanaethau a gyflenwir i blant a phobl ifanc yn y ddalfa eu comisiynu gan asiantaethau eraill. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau datblygu'n rhoi cyfle i'r llywodraeth amlinellu ei disgwyliadau gan ddarparwyr.

7. Asesiad o effaith yn erbyn nodweddion gwarchoddedig

Oed

Un o'r effeithiau penodol a ddadansoddir yn yr adran hon yw'r effaith y gall penderfyniadau datgomiynu ei chael ar bellter sefydliadau o gymunedau cartref. Mae hwn yn fater o bryder arbennig o ran y grwpiau oed iau.

Yn 2010/11, roedd poblogaeth fisol gyfartalog y bobl ifanc sy'n cael eu rhoi yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr yn 2,040. Roedd tua 95% o'r bobl ifanc mewn sefydliadau diogel yn 15–17 mlwydd oed.⁵

Nid yw'r gostyngiad yn nifer y plant a phobl ifanc yn y ddalfa dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn unfurf ar draws pob grŵp oed. O gymharu â 2006/07, mae'r garfan 10–14 mlwydd oed wedi lleihau 51% ac mae'r garfan 15 mlwydd oed wedi lleihau 41%.

Mae'r gostyngiad mewn galw am le yn y ddalfa eisoes wedi galluogi'r YJB i ddatgomiynu nifer o sefydliadau. Bydd gwelyau gwag cyson mewn sefydliadau diogel yn golygu y gall fod angen mwy o ddatgomiynu.

Rydym yn cydnabod effaith bosibl datgomiynu pellach ar rai bechgyn 10–14 mlwydd oed a merched 10–16 mlwydd oed. Yn benodol, rydym yn cydnabod y caiff nifer bach o bobl ifanc eu lleoli'n bellach oddi wrth eu cymunedau cartref, ac y gallai hynny effeithio ar y gallu i gynllunio'n effeithiol ar gyfer ailsefydlu ac ar allu teuluoedd i gadw mewn cysylltiad rheolaidd wyneb-yn-wyneb â'r person ifanc. Rydym hefyd yn cydnabod yr effaith y gallai datgomiynu pellach ei chael ar y sector cartrefi plant diogel a'r sector canolfannau hyfforddi diogel, sy'n cyflenwi gwasanaethau i'r garfan hon o bobl ifanc.

Mae dadansoddiad cipolwg diweddar o'r holl bobl ifanc yn y ddalfa ar 1 Rhagfyr 2011 yn dangos bod pedwar o bob pump (79%) o blant a phobl ifanc wedi'u lleoli o fewn 75 milltir i'w cymuned gartref.⁶ Er y ceir amrywiadau rhanbarthol, mae'r cyfartaledd cenedlaethol ar 1 Rhagfyr 2011 yn 51.7 milltir.

⁵ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2012) *Ystadegau Cyfiawnder Ieuencid 2010/11 – Cymru a Lloegr*. Llundain: Llywodraeth EM.

⁶ Ciplun misol o'r boblogaeth yn y ddalfa yw'r ffigurau hyn; cânt eu cymryd yn rheolaidd ar ddydd Gwener olaf y mis neu ddydd Gwener cyntaf y mis canlynol, gan ddibynnu pa un yw'r agosaf at ddiwedd y mis. Nid yw'r ffigurau hyn yn rhan o'r Ystadegau Cyfiawnder Ieuencid a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012.

Mae hyn yn ostyngiad bach oddi ar fis Awst 2009 (pan roedd 84% wedi'u lleoli o fewn 75 milltir i'w cymuned gartref) – cyn gweithgarwch datgomisiynu'r YJB, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2009 ac sydd wedi arwain at ddatgomisiynu tua thraean holl ddarpariaeth sefydliadau troseddwr ifanc i rai dan 18.

Er y ceir amrywiadau rhanbarthol, roedd y pellter cyfartalog cenedlaethol ar 1 Rhagfyr 2011 yn 51.7 milltir. O'r 21% o bobl ifanc a gafodd eu lleoli dros 75 milltir oddi wrth eu cartref, roedd 68% mewn sefydliadau troseddwr ifanc i rai dan 18, 13% mewn canolfannau hyfforddi diogel, 9% mewn cartrefi plant diogel a 10% mewn darpariaeth uwch (e.e. Uned Keppel). Ni chafodd y bobl ifanc yn y canolfannau hyfforddi diogel, yn y cartrefi plant diogel ac mewn darpariaeth uwch eu rhoi mewn darpariaeth sefydliadau troseddwr ifanc i rai dan 18 oherwydd eu hanghenion penodol. Mewn rhai achosion, golygodd hyn bod rhaid i bobl ifanc deithio'n bellach i gael y gwasanaethau mwyaf priodol iddynt.

Caiff pobl ifanc eu lleoli yn y sefydliad sydd yn y sefyllfa orau i ddiwallu eu hanghenion. Mewn rhai achosion, gall hyn olygu lleoli person ifanc mewn sefydliad heblaw'r un sydd agosaf at eu cartref yn ddaearyddol. Mae'r YJB yn parhau i fonitro pellter o gartref yn ofalus wrth wneud penderfyniadau lleoli.

Mae'r YJB yn adolygu eu darpariaeth bresennol yn rheolaidd yn erbyn galw posibl yn y dyfodol, ac yn addasu eu penderfyniadau comisiynu'n unol â hynny. Wrth wneud hynny, maent yn lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y garfan ieuengaf o bobl ifanc. Mae contractau diweddaraf cartrefi plant diogel yn galluogi'r YJB i barhau i gomisiynu o bob un o'r cartrefi y maent wedi contractio â hwy yn y gorffennol.

Mae swyddogaethau comisiynu'r YJB yn cynnwys adolygiadau rheolaidd o ddsbarthiad daearyddol gwasanaethau. Rydym yn arbennig o ymwybodol o'r ffaith bod y galw presennol yn fwy na'r cyflenwad yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr. At y diben hwn, mae'r YJB a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr wedi cytuno i gynyddu'r ddarpariaeth yn Sefydliad Troseddwr Ifanc Cookham Wood yn Rochester (Caint). Caiff bloc llety newydd a bloc addysg ar wahân eu hadeiladu, gan gynyddu nifer y lleoedd o 131 i 208. Y bwriad ar hyn o bryd yw cael caniatâd cynllunio yng ngwanwyn 2012 a bod wedi cwblhau'r estyniad erbyn hydref 2013.

Felly, ein casgliad yw na fydd cynigion y cynlluniau datblygu'n cael effaith anffafriol ar oed. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu data perfformiad mewnol yn rheolaidd i'n galluogi i fonitro penderfyniadau am leoliadau ac effaith datgomisiynu gwasanaethau.

Rhyw

Yn 2010/11, gwrywod oedd 95% o'r bobl ifanc mewn sefydliadau diogel. Mae'r gyfran hon wedi bod yn eithaf sefydlog dros y degawd diwethaf.

Rydym hefyd yn gwybod bod nodweddion ac anghenion merched yn y ddalfa'n wahanol i rai eu cyfoedion gwrywaidd, gan gynnwys niferoedd uwch sydd wedi profi trais neu gam-drin, yn ogystal â lefelau uwch o iselder a phroblemau iechyd meddwl.⁷ Hefyd, mae ymchwil a gomisiynwyd gan yr YJB yn awgrymu ei bod yn well gan ferched

⁷ Swyddfa Gartref (2007) *Adroddiad Corston – Adroddiad gan y Farwnes Jean Corston am Adolygiad o Fenywod sy'n agored i niwed mewn ffyrdd penodol yn y System Cyfiawnder Troseddol*. Llundain: Llywodraeth EM.

ymyriadau gwahanol i fechgyn; er enghraifft, mae'n well ganddynt fod mewn amgylchedd gyda benywod yn unig a meithrin perthynas un-i-un.⁸

Mae'r cynlluniau datblygu'n cydnabod nad triniaeth gyfartal yw'r ffordd o gyflawni canlyniadau cyfartal, ond triniaeth briodol yn unol ag anghenion a risgiau. I adlewyrchu hyn, mae'r YJB yn y gorffennol wedi comisiynu gwasanaethau penodol i fenywod ifanc. Mae'r llywodraeth wrthi'n cyflwyno fframwaith remand newydd ar hyn o bryd,⁹ a fydd yn dileu'r anomaledd bod benywod 17 mlwydd oed yn cael eu trin fel oedolion at ddibenion remand. Bydd hyn yn cynyddu hyblygrwydd lleoli'r YJB yn ogystal â'u gallu i ddiwallu anghenion y garfan hon o bobl ifanc.

Mae hyn yn rhoi cyfle i ni adolygu gwasanaethau a gomisiynir ar gyfer merched i sicrhau y gallant ddiwallu anghenion y garfan hon yn effeithiol. Bydd yr YJB yn dechrau'r gwaith hwn yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant fel rhan o'u dadansoddiad rheolaidd o angen. Rhoddir mwy o fanylion am y dadansoddiad o angen yn y drafodaeth am 'Anableded ac Anawsterau Dysgu' ar dudalen 10.

Felly, nid yw'n debygol y caiff ein cynlluniau effaith anffafriol ar fenywod. Drwy gael gwell dealltwriaeth o anghenion plant a phobl ifanc benywaidd sy'n cael eu lleoli yn y ddalfa, bydd gwasanaethau a gomisiynir mewn gwell sefyllfa i roi sylw i'r ffactor risg sylfaenol sy'n arwain at ymddygiad troseddol.

Cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd

Nid ydym yn gwybod llawer am bobl ifanc drawsryweddol mewn sefydliadau diogel, ac mae'n anodd gwybod a yw'r hyn yr ydym yn ei wybod yn ddibynadwy. Mae'r YJB yn ymwybodol o bedwar o bobl ifanc sydd wedi dweud eu bod yn drawsrywiol ers 2010/11. Mae'n bosibl bod hyn yn cuddio ffigur uwch o bobl ifanc na rannodd y wybodaeth hon am resymau cyfrinachedd.

Nid yw'r YJB ar hyn o bryd yn cofnodi cyfeiriadedd rhywiol pobl ifanc mewn sefydliadau diogel, nac yn cofnodi ailbennu rhywedd ychwaith.

Fodd bynnag, pan fo'r wybodaeth hon ar gael, bydd y YJB yn ei hystyried wrth wneud penderfyniadau lleoli. Ar hyn o bryd, mae'r BCI yn ymwybodol o un person ifanc trawsryweddol yn y ddalfa. Er mwyn rhoi gwell cefnogaeth i bobl ifanc drawsryweddol, mae'r YJB yn y broses o ddatblygu protocol lleoli trawsryweddol.

Ni fydd y newidiadau arfaethedig a amlinellir yn y cynlluniau datblygu'n cael effaith negyddol ar blant a phobl ifanc sy'n drawsryweddol neu sy'n hoyw, yn ddeurywiol neu'n lesbiaidd. Bydd yr YJB yn parhau i gomisiynu gwasanaethau sy'n ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion unigol pob plentyn a pherson ifanc, a lleoli pobl ifanc yn unol â'u hanghenion a'u risgiau penodol.


Hil

Mae Ffigur 1 dros y ddalen yn rhoi golwg gyffredinol ar ganrannau poblogaeth dan-18 sefydliadau diogel yn ôl hil yn 2010/11.

⁸ Swyddfa Gartref (2007) *Adroddiad Corston – Adroddiad gan y Farwnes Jean Corston am Adolygiad o Fenywod sy'n agored i niwed mewn ffyrdd penodol yn y System Cyfiawnder Troseddol*. Llundain: Llywodraeth EM.

⁹ Bil Cymorth Cyfreithiol a Dedfrydu, cymal 74 isadran (5).

Ffigwr 1. Canran y plant a phobl ifanc yn y ddalfa yn ôl hil 2010/11



Ffynhonnell data: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2012) *Ystadegau Cyfiawnder Ieuencid 2010/11 – Cymru a Lloegr*. Llundain: Llywodraeth EM.

Yn 2010/11, roedd 64% o'r bobl ifanc mewn sefydliadau diogel o gefndir ethnig Gwyn. Mae hyn yn cymharu ag 86% o bobl ifanc o gefndir ethnig Gwyn yn y boblogaeth gyffredinol 10–17.¹⁰ Yn 2010/11, roedd 17% o'r bobl ifanc yn y ddalfa o gefndir ethnig Du, o gymharu â 3% yn y boblogaeth gyffredinol 10–17.¹¹ Pobl ifanc Ddu oedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifol ethnig a leolwyd mewn sefydliadau carcharu.

Ystyriodd adroddiad Pwyllgor Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin, dan y teitl *Pobl Ifanc Ddu a'r System Cyfiawnder Troseddol (2006–07)*¹² sut i ymdrin â'r ffaith bod gan bobl ifanc ddu gynrychiolaeth rhy uchel yn y system cyfiawnder troseddol. Roedd yn datgan, pan gâi pobl ifanc Ddu eu cyhuddo o drosedd, eu bod yn llawer llai tebygol o gael mechnïaeth ddiamod ac yn fwy tebygol o gael eu cadw yn y ddalfa o gymharu â rhai Gwyn cyfatebol. Yn 2010/11, cafodd 34% o bobl Ddu dan 18 eu remandio yn y ddalfa, o gymharu â 22% o bobl Wyn o'r un grŵp oed. Cyhoeddodd y llywodraeth eu hymateb ffurfiol yn 2007.¹³ Cyhoeddwyd cynigion manwl (gan gynnwys adroddiad blynyddol ar gynydd) ar gyfer cyflenwi canlyniadau gwell i bobl ifanc ddu ym mis Rhagfyr 2007. Cyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol diweddaraf ym mis Rhagfyr 2009.¹⁴

Mathau o droseddau

Mae'r data am fathau o droseddau yn Ffigwr 2 dros y ddalen yn dangos gwahaniaethau wrth gymharu yn ôl hil. Mae pobl ifanc Asiaidd yn fwy tebygol o gael eu cyhuddo o drosedd yn ymwneud â chyffuriau, ac mae pobl ifanc ddu yn fwy tebygol o gael eu cyhuddo o ladrad. Mae pobl ifanc Wyn yn fwy tebygol o gael eu cyhuddo o fwrgeriaeth o gartrefi.

¹⁰ <http://www.justice.gov.uk/publications/statistics-and-data/youth-justice/statistics.htm>.


¹¹ <http://www.justice.gov.uk/publications/statistics-and-data/youth-justice/statistics.htm>.

¹² <http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200607/cmselect/cmhaff/181/181i.pdf>.

¹³ Pobl Ifanc Ddu a'r System Cyfiawnder Troseddol: Ymateb y Llywodraeth, Hydref 2007.

¹⁴ Pobl Ifanc Ddu a'r System Cyfiawnder Troseddol: ail adroddiad blynyddol Rhagfyr 2009.

Ffigwr 2. Pobl ifanc yn y ddalfa yn ôl math o drosedd 2010/11



Ffynhonnell data: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2012) *Ystadegau Cyfiawnder Ieuencid 2010/11 – Cymru a Lloegr*. Llundain: Llywodraeth EM.

Mae pobl ifanc Ddu ac Asiaidd yn fwy tebygol o fod wedi cael dedfryd fwy llym o gaethiwed o gymharu â rhai Gwyn cyfatebol. Nid yw'n glir a yw'r mathau mwy difrifol o ddedfrydau'n gysylltiedig â math neu ddifrifoldeb y troseddau dan sylw. Mae'r YJB eisoes yn cydweithio â Chymdeithas yr Ynadon i gael gwell dealltwriaeth o dueddiadau dedfrydu.

Ar draws sefydliadau diogel, mae canran yr Ymyriadau Corfforol Cyfyngol (RPIs)¹⁵ sy'n cynnwys pobl ifanc Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn gymesur i'w canran yn y boblogaeth. Fodd bynnag, mae sefydliadau diogel mewn gwahanol sectorau'n dangos patrymau gwahanol:

- yn y sector cartrefi plant diogel, mae canran y RPIs sy'n cynnwys pobl ifanc Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn gyffredinol gymesur â chanran poblogaeth cartrefi plant diogel sydd yn y grŵp hwn (er y cafwyd rhywfaint o amrywiadau bras)
- yn sector canolfannau hyfforddi diogel, mae canran y RPIs sy'n cynnwys pobl ifanc Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn is na chanran y grŵp hwn ym mhoblogaeth y canolfannau hyn
- yn y sector sefydliadau troseddwr ifanc i rai dan 18, a oedd yn dal cyfartaledd o 81% o'n poblogaeth yn y ddalfa dros y cyfnod dan sylw, mae canran y RPIs sy'n cynnwys pobl ifanc Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn uwch na chanran y bobl ifanc Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn y boblogaeth dan 18 mewn sefydliadau troseddwr ifanc; h.y. caiff pobl ifanc yn y grŵp hwn eu cyfyngu'n anghymesur o aml.

¹⁵ Caiff RPI ei ddiffinio fel 'Unrhyw achlysur lle defnyddir grym gyda'r bwriad o drechu neu i drechu unigolyn ifanc'. Caiff trechu ei ddiffinio fel 'cyfyngu ar symudiadau neu symudedd'.

Bydd y cynigion a amlinellir yn y cynlluniau datblygu'n cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae sefydliadau troseddwr ifanc i rai dan 18 eisoes wedi sefydlu systemau i fonitro achosion o anghymesuredd sy'n codi mewn perthynas â dyfarniadau, gwahanu, defnyddio grym a'r system gwyno. Mae'r YJB wrthi'n cydweithio â'u darparwyr i sicrhau y rhennir arfer gorau ar draws pob sector yn yr ystâd.

Mae'r YJB yn parhau i fonitro data'n ganolog ac mae'n adborthi gwybodaeth yn rheolaidd i sefydliadau. Mae'r YJB hefyd yn bwriadu gwneud mwy o waith i ddeall pam mae plant a phobl ifanc Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn parhau i gael profiadau llai ffafriol yn y ddalfa o gymharu â rhai Gwyn cyfatebol. Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, byddwn yn gallu rhoi gwell cefnogaeth i'n darparwyr i ddatblygu strwythurau ac arferion effeithiol i hybu cydraddoldeb a mynd i'r afael â gwahaniaethu.

Anabledd ac anawsterau dysgu

Canfu Adroddiad Blynyddol yr Arolygiad ar y Cyd o Dimau Troseddwr Ifanc 2006/07¹⁶ fod gan 62% o bobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â thimau troseddwr ifanc 'anawsterau ysgol' a'u bod, mewn rhai achosion, yn methu â defnyddio gwasanaethau yn yr un ffordd â phlant eraill yn yr ardal.

Mae ymchwil arall yn awgrymu bod mynychder problemau iechyd meddwl ymysg pobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol o leiaf deirgwaith cymaint ag ymysg y boblogaeth gyffredinol.¹⁷ Yr anhwylderau mwyaf cyffredin oedd anhwylderau ymddygiad, anhwylderau emosiynol ac anhwylderau canolbwytio. Mae camddefnyddio sylweddau hefyd yn broblem benodol¹⁸.

Caiff anghenion unigol eu hystyried wrth leoli unigolyn ifanc – gan gynnwys anabledd. Bydd y cynigion arfaethedig a amlinellwyd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc ag anableddau dysgu. Mewn partneriaeth â chyd-gomisiynwyr, bydd yr YJB yn cynnal dadansoddiad newydd o angen, gan ddod â nifer o ffynonellau tystiolaeth at ei gilydd i gael dealltwriaeth lawn o anghenion holistaidd plant a phobl ifanc sy'n cael eu lleoli yn y ddalfa, gan gynnwys hwyluso partneriaid lleol a chenedlaethol yn benodol i adolygu:

- anghenion iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl)
- camddefnyddio sylweddau
- gorchmynion atafaelu
- anghenion lleferydd ac iaith, ac
- anawsterau dysgu.

Yn seiliedig ar yr asesiad hwn o angen, bydd yr YJB yn datblygu darpariaeth uwch a fydd yn golygu bod yr YJBmewn gwell sefyllfa i ddiwallu anghenion yr holl bobl ifanc, yn enwedig y lleiafrif ohonynt ag anghenion iechyd meddwl a chorfforol cymhleth iawn.

Mae'r 'Gwerthusiad Proses Uned Keppel 2011'¹⁹ a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn awgrymu bod yr amgylchedd unigryw a ddarperir mewn unedau uwch yn fwy tebygol o

¹⁶ Arolygiaeth Prawf EM (2007) *Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Prawf EM 2006/07 – Arolygiad Annibynnol o Wasanaethau Prawf a Thimau Troseddwr Ifanc*. Llundain: HMIP.

¹⁷ Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2005) *Anghenion Iechyd Meddwl ac Effeithiolrwydd Darpariaeth i Droseddwr Ifanc yn y Ddalfa ac yn y Gymuned*. Llundain: YJB.

¹⁸ Jacobson J., Talbot J. *Diffynyddion Agored i Niwed yn y Llysoedd Troseddol: adolygiad o'r ddarpariaeth i oedolion a phlant*, 2009 (t37).

¹⁹ Gweler <http://www.justice.gov.uk/youth-justice/custody/specialist-resources/keppel-unit>

gyfrannu at ostyngiad cadarnhaol mewn ffactorau risg na lleoli'r person ifanc yn rhywle arall.

Crefydd neu gred

Er y caiff ei gofnodi'n lleol yn y rhan fwyaf o achosion, ni chaiff cysylltiad crefyddol pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol (yn enwedig y rheini mewn sefydliadau diogel) ei gasglu'n genedlaethol. Mae'r gwasanaethau a gyflenwir i bobl ifanc yn y ddalfa'n ymatebol i anghenion crefyddol pobl ifanc. Mae'r angen i ddiwallu'r anghenion crefyddol hyn wedi'i amlinellu yn y fframweithiau cyfreithiol sy'n amlinellu sut mae sefydliadau troseddwr ifanc i rai dan 18, canolfannau hyfforddi diogel a chartrefi plant diogel yn gweithredu.²⁰

Mae cwestiwn am y berthynas rhwng gwahaniaethu crefyddol a gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig eraill. Mae'n bwysig iawn cofio y gall gwahaniaethu crefyddol orgyffwrdd â gwahaniaethu hiliol. O fewn y gwyddorau cymdeithasol, ystyrir bod hunaniaeth grefyddol yn newidyn dibynnol ar ethnigrwydd a/neu ddiwylliant.²¹

Ni ragwelir y bydd cynigion y strategaeth yn effeithio ar y nodwedd warchoddedig hon.

Priodas a phartneriaeth sifil

Nid yw'r YJB yn cofnodi'r wybodaeth hon yn benodol. Fodd bynnag, caiff pob unigolyn ifanc ei leoli yn y ddalfa yn bennaf seiliedig ar angen unigol. Mae'r gwasanaethau a gyflenwir i bobl ifanc yn y ddalfa'n ymatebol i anghenion teuluol ac i hawliau pobl ifanc. Mae'r YJB hefyd yn gweithredu cynllun ymweliadau â chymorth i deuluoedd.

Felly, nid ydym yn rhagweld y bydd cynigion y cynlluniau datblygu'n cael effaith affafriol ar y nodwedd warchoddedig hon.

Beichiogrwydd a mamolaeth

Dechreuodd yr YJB gasglu gwybodaeth am nifer y merched ifanc beichiog ym mis Gorffennaf 2011.²² Ers mis Gorffennaf 2011, mae'r YJB wedi lleoli 12 o ferched y cadarnhawyd eu bod naill ai'n feichiog neu'n famau. Ers mis Ionawr 2010, derbyniwyd 16 o ferched i'r Uned Mamau a Babanod yng nghanolfan hyfforddi ddiogel Rainsbrook – adnodd arbenigol 3 gwely i ddiwallu anghenion penodol y garfan hon.

Caiff mater beichiogrwydd a mamolaeth ei ystyried ochr yn ochr â'r adolygiad o ddarpariaeth gwasanaethau i fenywod a nodwyd uchod. Nid yw'r cynlluniau presennol yn rhagweld y gwneir unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu ar hyn o bryd. Ni ystyrir bod effaith cynigion y cynlluniau datblygu'n arwyddocaol. Fel rhan o'r adolygiad ehangach o ddarpariaeth gwasanaethau i fenywod, bydd yr YJB yn parhau i ystyried nodweddion ac anghenion penodol pobl ifanc yn y ddalfa ac yn parhau i ddarparu gwasanaethau priodol i famau ifanc a babanod ac i ferched ifanc sy'n feichiog.

²⁰ Gweler rheolau 30-36 Rheolau Sefydliadau Troseddwr Ifanc 2000.

²¹ Paul Weller. *Gwahaniaethu crefyddol ym Mhrydain: Adolygiad o dystiolaeth ymchwil, 2000-10, 2011* (tt 9).

²² Mae system ddata fewnol yr YJB yn casglu 'data byw'. Pe bai merch yn cael ei labelu'n feichiog ar y system hon ar adeg ei lleoli yn y ddalfa, câi hynny ei ddileu cyn gynted â'i bod yn gadael yr ystâd neu'n rhoi genedigaeth.

8. A oes unrhyw fylchau mewn gwybodaeth sy'n ei gwneud yn anodd neu'n amhosibl ffurfio barn am sut y gallai eich cynigion effeithio ar wahanol grwpiau o bobl?

Mae'r adrannau blaenorol eisoes wedi rhoi sylw i rai bylchau mewn gwybodaeth, er enghraifft, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd. Mae data mewnol yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r ymrwymadau a amlinellir yn y cynlluniau datblygu. Mae gwybodaeth ar gael yn rhwydd wedi'i threfnu yn ôl oed, rhyw ac ethnigrwydd ac mae'n galluogi asesiadau rhesymol.

Mae bwch ar hyn o bryd o ran cofnodi anabledd. Y prif reswm am hyn yw materion yn ymwneud â diffinio a chofnodi anableddau'n glir mewn offer rheoli achosion presennol. Mae cynlluniau eisoes ar waith i unioni'r anghysondeb hwn fel rhan o'r broses o gyflwyno system newydd i asesu a chynllunio dedfrydau, eAsset. Fel rhan o'r datblygiadau hyn, caiff iechyd a chyflyrau meddygol pobl ifanc eu cofnodi a bydd adroddiadau ar gael. Cwblhawyd asesiad arall o'r effaith ar gydraddoldeb yn ystod cyfnod dichonoldeb ac ymgynghori'r prosiect hwn. Mae datganiad o fwriad am y Fframwaith Asesu ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Mae'r Adran Iechyd wrthi'n datblygu Pecyn Cynhwysfawr Asesu Iechyd i'w gyflwyno mewn sefydliadau carcharu ac yn y gymuned yn Lloegr. Bydd y pecyn sgrinio'n unioni'r bylchau mewn gwybodaeth iechyd o ganlyniad i sgrinio iechyd ac asesiadau presennol, gan gynnwys iechyd corfforol, anableddau dysgu, anhwylderau niwro-ddatblygiadol (e.e. anhwylderau'r sbectrwm awtistig, anafiadau trawmatig a niwed i'r ymennydd, ac anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu).

Yn olaf, mewn partneriaeth â phartneriaid cydgomisiynu, bydd yr YJB yn cynnal dadansoddiad newydd o anghenion gyda ffocws penodol ar y rheini ag anghenion cymhleth.

9. Camau nesaf

Cyhoeddir y cynlluniau datblygu ar dudalen Cyfiawnder Ieuenctid gwefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Bydd fersiwn Cymraeg o'r ddogfen ar gael hefyd. Caiff y ddogfen ei dosbarthu'n uniongyrchol i randdeiliaid gan ddefnyddio'r dulliau cyfathrebu arferol.

Y gynulleidfa darged fydd:

- darparwyr sefydliadau diogel presennol
- ymarferwyr cyfiawnder ieuenctid a darparwyr gwasanaethau
- elusennau plant a grwpiau pwysu cysylltiedig o'r trydydd sector
- cydgomisiynwyr ym meysydd iechyd ac addysg
- rheolwyr gwasanaethau plant awdurdodau lleol
- grwpiau fforwm gwahanol grwpiau amrywiaeth
- seneddwyr, a
- phobl ifanc.

Cyfeiriwch unrhyw sylwadau sydd gennych at secureestatestrategy@yjb.gov.uk.

10. Rhowch fanylion sut y byddwch yn monitro, gwerthuso neu adolygu eich cynigion, a phryd y cynhelir yr adolygiad

Mae'r rhan fwyaf o'r ymrwymadau yn y ddogfen yn destun asesiadau unigol ac asesiadau llawn o'r effaith ar gydraddoldeb; datblygir y rhain fel y bo'n briodol.

Mae'r YJB yn parhau i fonitro a gwerthuso arferion fel rhan o'u swyddogaeth monitro. Fel rhan o'u swyddogaeth comisiynu, caiff data presennol ei adolygu a'i ddadansoddi – gan gynnwys am unrhyw dystiolaeth o'r effaith ar gydraddoldeb.

11. Crynodeb

Mae'r ddogfen *Datblygu Sefydliadau Diogel i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru a Lloegr – Cynlluniau tan 2015* yn amlinellu cynigion ar gyfer sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc yng Nghymru a Lloegr tan 2014/15. Bydd y cynlluniau hyn yn galluogi'r YJB i gyflawni eu blaenoriaethau a phennu fframwaith clir ar gyfer datblygu sefydliadau diogel i rai dan 18 oed. Ei phrif nod yw sicrhau bod y YJB yn bodloni eu hamcanion cyffredinol, sef:

- ad-drefnu sefydliadau diogel i gyd-fynd â gostyngiad mewn galw
- parhau i wella canlyniadau i bobl ifanc, a
- sicrhau y gwireddir ymrwymadau adolygiadau o wariant.

Mae hybu cydraddoldeb, gweithio mewn modd anwahaniaethol a gwerthfawrogi amrywiaeth yn hollbwysig. Bydd y llywodraeth yn parhau i gasglu data perthnasol ac yn adolygu gwybodaeth ansoddol er mwyn hybu arferion effeithiol.

Enw'r Uwch Reolwr: Ray Hill, Cyfarwyddwr (Llety Diogel)

Adran: Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr

Dyddiad: Mawrth 2012